



**CANLLAWIAU –  
CYDNABYDDIAETH AELODAU**

**GUIDELINES –  
MEMBERS' REMUNERATION**

## Cynllun Cydnabyddiaeth Aelodau / Members Remuneration Scheme

Mae'r Cynllun hwn yn cael ei wneud o dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol Cymru (IRPW) sy'n gymwys ar gyfer daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol.

*This Scheme is made under the Local Government (Wales) Measure 2011 with regard to Independent Remuneration Panel for Wales (IRPW) Regulations which apply to payments made to members and co-opted members of local authorities.*

CYNNWYS/ CONTENTS	TUDALEN/PAGE
1. Cyflog Sylfaenol/ <i>Basic Salary</i>	3
2. Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig/ <i>Senior Salaries &amp; Civic Salaries</i>	3
3. Ad-daliad Costau Gofal <i>Reimbursement of costs of care</i>	4
4. Treuliau Teithio a Chynhaliaeth / <i>Travel and Subsistence Allowances</i>	5
5. Treuliau – Dyletswyddau Cydnabyddedig / <i>Allowances - Recognized Duties</i>	6
6. Cyfarwyddiadau Cyflwyno Treuliau Teithiau / <i>Guidelines on Submitting Travelling Costs</i>	7
7. Manylion cyswllt/ <i>Contact Details</i>	8
Atodiad A/ <i>Appendix A</i>	9

## 1. Cyflog Sylfaenol/ Basic Salary

Cyflog Sylfaenol/ Basic Salary	Cymwys – pob Cyngorydd Eligible – every Councillor	Swm - £13,600 Amount - £13,600
-----------------------------------	---	-----------------------------------

- 1.1 Bydd Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod /  
*A Basic Salary shall be paid to each elected Member of the Authority.*
- 1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd gyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu bob blwyddyn fel y penderfynir gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. / *In accordance with the Regulations, the rate of the Basic Salary shall be reviewed annually as determined by the Independent Remuneration Panel for Wales.*
- 1.3 Lle mae cyfnod swydd Aelod yn dechrau neu'n gorffen heblaw am ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl ef/hi i gael y Cyflog Sylfaenol ar statws pro-rata. / *Where the term of office of a Member begins or ends other than at the beginning or end of a year, his/her entitlement to the Basic Salary will be pro-rata.*
- 1.4 Nid oes mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod. /  
*No more than one Basic Salary is payable to a Member of the Authority.*

## 2. Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig/ Senior Salaries & Civic Salaries

Arweinydd y Cyngor	£48,300
Dirprwy Arweinydd y Cyngor	£33,800
Aelodau Cabinet (x8)	£29,300
Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu (x3)	£22,300
Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau	£22,300
Cadeirydd Pwyllgor Trwyddedu	£22,300
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	£22,300
Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio	£22,300
Arweinydd Grŵp yr wrthblaid fwyaf	£22,300

Cyflog Dinesig – Cadeirydd y Cyngor	£21,800
Cyflog Dinesig – Is-Gadeirydd y Cyngor	£16,300

- 2.1 Bydd Aelodau yn y swyddi penodol a nodir uchod yn derbyn Uwch Gyflog./  
*Members occupying specific posts noted above shall be paid a Senior Salary*
- 2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfraddau Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel y pennir gan Adroddiad Blynyddol neu Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol./ *In accordance with the Regulations, the rates of Senior Salaries and Civic Salaries shall be reviewed annually as determined by the Annual or Supplementary Report of the Independent Remuneration Panel for Wales.*
- 2.3 Dim ond un Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod /  
*Only one Senior Salary or Civic Salary is payable to a Member of the Authority.*
- 2.4 Ni all Aelod o'r Awdurdod dderbyn Uwch Gyflog a Chyflog Dinesig./  
*A Member of the Authority cannot be paid a Senior Salary and a Civic Salary.*
- 2.5 Mae pob Uwch Gyflog a Chyflog Dinesig yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol./  
*All Senior and Civic Salaries are paid inclusive of Basic Salary*

- 2.6 Ni chaiff Cyflog Uwch ei dalu i fwy na nifer yr aelodau a bennir gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol ac ni all fod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod, ac eithrio i gynnwys swydd Uwch Gyflog dros dro i gyflenwi ar gyfer absenoldeb teuluol y deiliad swydd a benodwyd./  
*A Senior Salary may not be paid to more than the number of members specified by the Independent Remuneration Panel for Wales in its Annual Report and cannot exceed fifty percent of the total membership of the authority, except to include a temporary Senior Salary office holder providing temporary cover for the family absence of the appointed office holder.*
- 2.7 Ni all Aelod o'r Awdurdod sy'n derbyn Uwch Gyflog dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) neu Awdurdod Tân ac Achub (ATA) y mae ef / hi wedi cael ei enwebu iddynt./ *A Member of the Authority in receipt of a Senior Salary **cannot** receive a salary from any National Park Authority (NPA) or Fire and Rescue Authority (FRA) for which he/she has been nominated.*
- 2.8 Lle mae tymor Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog neu Gyflog dinesig yn dechrau neu'n gorffen tu allan i ddechrau neu ddiwedd y flwyddyn arferol, bydd ei hawl ef/hi ar sail pro-rata./ *Where the term of Senior Salary or Civic Salary of a Member begins or ends other than at the beginning or end of a year, his/her entitlement to the Salary will be pro-rata.*
- 2.9 Gweler gwybodaeth ynghylch
- penderfyniad i beidio â derbyn lwfans,
  - atal aelod,
  - ad-dalu cyflogau a lwfansau
  - gwybodaeth benodol am y taliadau
  - Absenoldeb Teuluol
  - Taliadau i Aelodau cyfetholedig
- yn Atodiad A ar dudalen 9

*Further information with regards to*

- *foregoing entitlement to allowances,*
- *suspension of members,*
- *repayment of allowances, salaries and fees*
- *information with regards to payment*
- *Family Absence*
- *Co-optees' payments*

*in Appendix A on page 9*

### 3. **Ad-daliad Costau Gofal /Reimbursement of costs of care**

Ad-daliad Costau Gofal – pob aelod yn gymwys i dderbyn lwfans gofal ar gyfer dibynnydd	Uchafswm o £403 y mis/
Reimbursement of costs of care – all Members eligible to receive reimbursement of costs of care for a dependent	Maximum of £403 a month

- 3.1 Bydd Ad-daliad Costau Gofal yn cael ei dalu i Aelod neu Aelod Cyfetholedig, sydd â chyfrifoldeb gofalu am blant neu oedolion dibynnol, ar yr amod fod yr Aelod yn mynd i gostau wrth ddarparu gofal o'r fath er mwyn gwneud dyletswyddau 'cymeradwy' y cyngor./ *Reimbursement of costs of care shall be paid to a Member or Co-opted Member, who has caring responsibility for dependent children or adults, provided the Member incurs expenses in the provision of such care whilst undertaking 'approved' council duties.*
- 3.2 Mae Ad-daliad Costau Gofal yn gymwys mewn perthynas â phlant sy'n 15 oed neu iau a phobl eraill y mae'r Aelod neu'r Aelod Cyfetholedig yn gallu dangos bod angen gofal arnynt

*Reimbursement of costs of care applies in respect of children who are aged 15 or under and other persons for whom the Member or Co-opted Member can show that care is required.*

- 3.3 Gall aelodau cymwys wneud cais am Ad-daliad Costau Gofal ar gyfer costau gwirioneddol o hyd at £403 y mis. Rhaid cyflwyno derbynneb, a hawlio'r costau fesul diwrnod drwy fewngofnodi i'r System Hunan Wasanaeth > Costau Teithio drwy'r Porth Aelodau, a hynny o fewn 2 fis i'r cyfnod gofalu / *Eligible Members may claim Reimbursement of costs of care for actual costs up to £403 a month. Receipts must be produced and Members can claim daily, by logging in to the Self-Service System > Travel Expenses, through the Members' Portal, within 2 months of incurring the costs.*
- 3.4 Cyhoeddir manylion am gostau gofal gan y Cyngor ond heb dynnu sylw at daliadau i Aelodau unigol / *Details of care costs will be published by the Council but without drawing attention to payments made to individual members*

#### **Treuliau Teithio a Chynhaliath / Travel and Subsistence Allowances**

<b>Costau milltiroedd/ Milage rates</b>	<b>Cyfradd/ Rate</b>
Cerbydau modur o bob maint/ <i>All sizes of private motor vehicle:</i> Hyd at 10,000 milltir/ <i>Up to 10,000 miles</i> Dros 10,000 milltir/ <i>Over 10,000 miles</i>	£0.45y filltir/ <i>per mile</i> £0.25y filltir/ <i>per mile</i>
Beiciau modur preifat/ <i>Private Motor Cycles</i>	£0.24 y filltir/ <i>per mile</i>
Beiciau / <i>Pedal Cycles</i>	£0.20 y filltir/ <i>per mile</i>
Tâl ychwanegol am deithwyr eraill sydd yn gyflogedig gan Cyngor Gwynedd / <i>Additional supplement for other passengers employed by Cyngor Gwynedd</i>	£0.05 y filltir/ <i>per mile</i>
<b>Treuliau cynhaliath/ Subsistence Allowance</b> (gweler isod am fwy o fanylion / <i>see below for further details</i> )	Hyd at £28 i gwmpasu cyfnod o 24 awr/ <i>up to a maximum of £28 and covers a 24 hour period</i>
<b>Llety dros nos/ Overnight Stay</b> (bydd trefniadau llogi llety yn cael ei gweithredu drwy'r gwasanaethau cefnogol - gweler 7.2 am fwy o fanylion / <i>arrangements for room booking will be actioned through the support services - see 7.2 for further details</i> )	
Llundain/ <i>London</i>	Hyd at £200 gyda derbynneb/ <i>up to £200 with invoice</i>
Mannau eraill/ <i>elsewhere</i>	Hyd at £95 gyda derbynneb/ <i>up to £95 with invoice</i>
Aros gyda ffrindiau neu berthnasau/ <i>overnight stay with friends or relatives</i>	£30

- 4.1 Telir treuliau teithio o gartref yr unigolyn (dyma'r lleoliad gwaith arferol) a chynhaliath i aelodau lle bo gwariant angenrheidiol wedi ei wneud ar deithio neu gynhaliath mewn cysylltiad â dyletswyddau a gymeradwywyd ac ar dderbyn cais priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor ar eu hawlio. / *Travelling allowance from member's homes (as the usual place of work) and subsistence will be paid to members where expenditure has been necessarily incurred on travelling or subsistence in connection with approved duties and upon receipt of a valid claim in accordance with the Council's guidance.*
- 4.2 Rhaid cyflwyno cais am dreuliau teithio a chynhaliath erbyn y diwrnod olaf o bob mis er mwyn sicrhau taliad prydlon. Anogi'r aelodau i gyflwyno cais yn ddyddiol drwy fewngofnodi i'r System Hunan Wasanaeth > Costau Teithio, drwy'r Porth Aelodau – ni fydd ceisiadau sydd yn hŷn na **dau fis** yn cael eu talu heb ganiatâd arbennig / *A claim must be submitted for travelling and subsistence allowances by the last day of every month to ensure prompt*

*payment. Members are encouraged to submit claims on a daily basis by logging in to the Self-Service System > Travel Expenses, through the Members' Portal - claims which are older than **two months** will not be paid without special permission.*

- 4.3 Yn ôl y gyfraith ac i sicrhau bod Aelodau yn derbyn hawliau costau llawn a'r gyfradd milltiroedd priodol, mae angen derbynneb TAW dilys am danwydd i gefnogi'r cais - un dderbynneb gyda phob cais misol. Mae'n rhaid cadw holl dderbynebau (TAW a dim TAW) am gyfnod o chwe blwyddyn + blwyddyn gyfredol. Bydd methiant i ddarparu derbynebau i archwiliadau'r Cyngor neu Cyllid y Wlad yn arwain at orfod talu arian yn ôl. / *According to law and to ensure that Members receive travelling expenses in full and the correct mileage rate, a valid VAT fuel receipt is needed to support the claim - one receipt with each monthly claim. All receipts (VAT and non-VAT) must be kept for a period of six years + current year. Failure to provide this proof for a Council or Inland Revenue audit could result in having to pay the money back.*
- 4.4 Disgwylir i Aelodau drefnu teithio ar y cyd pan fo hynny'n bosib ac i'r gyrrwr hawlio am gludo teithwyr / *Members are expected to share travelling arrangements where possible and the driver to claim for carrying passengers.*
- 4.5 Bydd milltiroedd a deithiwyd ar fusnes swyddogol yn cael eu cyfrifo o'r cartref (lleoliad gwaith arferol yr aelod) i'r cartref. *Mileage for journeys for official business will be calculated from home (Member's normal place of work) to home.*
- 4.6 Telir Swm Dyddiol am Gynhaliath lle mae'r dyletswyddau yn mynd a chi i ffwrdd o Wynedd. Mae angen derbynneb i gefnogi'r cais. Ni chaniateir ad-dalu ar gyfer diodydd alcoholig. / *A Daily Subsistence Rate is payable when the duties take you outside Gwynedd. A receipt is required to support the claim. Re-imburement of alcoholic drinks is not permitted*
- 4.7 Telir am lety dros nos ac argymhellir fod Aelodau yn defnyddio gwasanaeth canolog y Cyngor (gweler 7.2 isod) / *Overnight accommodation allowance is payable and the Members are recommended to use the Council's central booking service (see 7.2 below).*

## **5. Treuliau – Dyletswyddau Cydnabyddedig / Allowances - Recognised Duties**

Telir treuliau teithio a chynhaliath am gyflawni'r dyletswyddau cydnabyddedig canlynol:  
*Travelling and Subsistence allowances will be paid for undertaking the following recognized duties:*

- 5.1 Mynychu cyfarfodydd o'r Cyngor, a phwyllgorau, is-bwyllgorau a chyd bwyllgorau yr ydych yn aelod ohono neu le y cawsoch wahoddiad ar gyfer eitemau penodol.  
*Attending meetings of the Council, committees, sub-committees and joint-committees of which you are a member or to which you have been invited for specific items.*
- 5.2 Mynychu ymchwiliadau (e.e. ymchwiliadau craffu), grwpiau tasg, fforymau (e.e. fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion) a drefnwyd gan y Cyngor ac yr ydych yn aelod ohonynt neu y cawsoch wahoddiad iddynt / *Attending working groups (e.g. scrutiny investigations), task groups, and forums (e.g. Chairs and Vice-chairs Forum) arranged by the Council of which you are a member or to which you have been invited.*
- 5.3 Mynychu cyfarfodydd hyfforddi neu gynadleddau a awdurdodwyd ymlaen llaw.  
*Attending training meetings or previously authorised conferences.*
- 5.4 Aelodau Cabinet neu gadeiryddion pwyllgorau yn cyflawni dyletswyddau penodol mewn perthynas â'u swyddogaeth / *Cabinet Members or Committee Chairs undertaking specific duties in relation to their role.*

- 5.5 Mynychu ymweliadau safle a drefnwyd neu a awdurdodwyd gan y Cyngor.  
*Attending site inspections arranged or authorised by the Council.*

**Ni thelir** treuliau teithio a chynhaliath am gyflawni'r dyletswyddau canlynol:  
*Travelling and Subsistence allowances **will not be paid** for undertaking the following duties:*

- 5.6 Mynychu cyfarfodydd llywodraethwyr ysgolion neu gyfarfodydd o gyrff allanol eraill nad ydynt wedi eu nodi fel rhai sy'n gymwys i ddenu lwfans.  
*Attending school governors meetings or meetings of other external bodies that have not been identified in the list of external bodies that qualify to receive an allowance.*

- 5.7 Mynychu cyfarfodydd grŵp gwleidyddol heblaw ar ddiwrnod y Cyngor.  
*Attending meetings of political groups, except on the day of the Council.*

- 5.8 Unrhyw ddyletswydd yn ymwneud â gwaith ward / *Any duty involving ward work.*

5.9 **Cyfarwyddiadau Cyflwyno Treuliau Teithiau / Guidelines on Submitting Travelling Costs**

- 5.10 Ceir cyfarwyddiadau gam wrth gam ar gyflwyno treuliau teithio drwy System hunan wasanaeth Cyngor Gwynedd drwy'r ddolen isod

[http://gwynedd.learningpool.com/pluginfile.php/8303/mod\\_resource/content/1/Taflen%20Cynghorwyr%20.pdf](http://gwynedd.learningpool.com/pluginfile.php/8303/mod_resource/content/1/Taflen%20Cynghorwyr%20.pdf)

*Step by step guidelines on submitting travelling costs through Gwynedd Council's Self Service system can be accessed via the link below*

[http://gwynedd.learningpool.com/pluginfile.php/8305/mod\\_resource/content/1/Taflen%20Cynghorwyr\\_english.pdf](http://gwynedd.learningpool.com/pluginfile.php/8305/mod_resource/content/1/Taflen%20Cynghorwyr_english.pdf)

**NODWCH / NOTE**

- Anogir i geisiadau gael eu cyflwyno yn ddyddiol – ni fydd ceisiadau sydd yn hŷn na DAU fis yn cael eu talu heb ganiatâd arbennig / *It is encouraged that claims are to be presented daily – claims which are older than TWO months will not be paid without special permission.*
- Dylid cynnwys derbynneb T.A.W dilys am danwydd/ *You should include a valid V.A.T receipts for fuel*
- NI ddylid gwneud cais am fynychu Cyfarfodydd Llywodraethwyr ysgolion.  
*Do NOT claim for attending school governors meetings.*

**6. Manylion cyswllt/ Contact Details**

- 6.1 Am unrhyw ymholiadau neu wybodaeth bellach ynglŷn â hawlio a hawliau treuliau ac ad-daliadau, cysylltir â / *For any further enquiries or information regarding claiming travelling and reimbursement of costs of care, please contact:*

Mari Powell Jones  
Rheolwr Gwasanaethau Cefnogol / *Support Services Manager*  
Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council  
Swyddfa'r Cyngor / Council Offices  
Caernarfon, Gwynedd  
LL55 1SH.  
01286 679022

- 7.2 Bwcio Llety (drwy e-bost yn unig) - [lletycefnogol@gwynedd.gov.uk](mailto:lletycefnogol@gwynedd.gov.uk)  
*Booking Accommodation (e-mail only)*

## ATODIAD A/ APPENDIX A

### **A Penderfyniad i Beidio â Derbyn y Lwfans / Election to Forgo Entitlement to Allowance**

- A.1 Gall Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol yr awdurdod, yn bersonol ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy o dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad./ *A Member may, by notice in writing delivered to the Proper Officer of the authority, personally elect to forgo any part of his/her entitlement to any salary, allowance or fee payable under this Scheme from the date set out in the notice.*

### **B. Atal Aelod/ Suspension of a Member**

- B.1 Pan fydd Aelod o'r Awdurdod yn cael ei atal, yn llwyr neu'n rhannol, o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, mae rhan y Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy iddo / iddi mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef neu hi yn cael ei atal yn cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) o'r Mesur)./ *Where a Member of the Authority is suspended or partially suspended from his or her responsibilities or duties as a Member of the Authority in accordance with Part III of the Local Government Act 2000 (Conduct of Members), or regulations made under the Act, the part of the Basic Salary payable to him/her in respect of that period for which he or she is suspended will be withheld by the Authority (Section 155 (1) of the Measure).*
- B.2 Pan fydd Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog yn cael ei atal, yn llwyr neu'n rhannol, rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod peidio â gwneud taliadau Uwch Gyflog i'r Aelod drwy gydol cyfnod yr ataliad (Adran 155 (1) o'r Mesur). Os yw'r atal rhannol yn ymwneud yn unig ag elfen chyfrifoldeb penodol y taliad, gall yr aelod gadw'r Cyflog Sylfaenol./ *Where a Member in receipt of a Senior Salary is suspended or partially suspended from being a Member of the Authority in accordance with Part III of the Local Government Act 2000 (Conduct of Members), or regulations made under the Act, the Authority must not make payments of the Member's Senior Salary for the duration of the suspension (Section 155 (1) of the Measure). If the partial suspension relates only to the specific responsibility element of the payment, the member may retain the Basic Salary.*

### **C. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd / Repayment of salaries, allowances or fees**

- C.1 Pan fydd taliad unrhyw gyflog, lwfans neu ffi wedi cael ei wneud i Aelod o'r Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fydd yr Aelod dan sylw:
- wedi'i h/atal neu ei h/atal dros dro o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau Aelod / Aelod Cyfetholedig yn unol â Rhan 3 o'r Ddeddf 2000 neu â rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno;
  - wedi rhoi'r gorau ar fod yn Aelod o'r Awdurdod neu'r Aelod Cyfetholedig
  - neu mewn unrhyw ffordd arall heb yr hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn cysylltiad â'r cyfnod hwnnw,
- bydd yr Awdurdod yn ei wneud yn ofynnol bod y cyfryw ran o'r lwfans sy'n ymwneud ag unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei ad-dalu./  
*Where payment of any salary, allowance or fee has been made to a Member of the Authority or Co-opted Member in respect of any period during which the Member concerned:*



- (a) *is suspended or partially suspended from that Member's/Co-opted Member's duties or responsibilities in accordance with Part 3 of the 2000 Act or regulations made under that Act;*
  - (b) *ceases to be a Member of the Authority or Co-opted Member; or*
  - (c) *is in any other way not entitled to receive a salary, allowance or fee in respect of that period,*
- the Authority will require that such part of the allowance as relates to any such period be repaid.*

**Ch. Taliadau / Payments**

- Ch.1 Bydd taliadau'r holl lwfansau yn cael eu gwneud drwy greyd banc uniongyrchol mewn rhandaliadau o un rhan o ddeuddeg o hawl blynyddol yr Aelod ar 22ain o bob Mis. / *Payments of all allowances will be made by direct bank credit in instalments of one-twelfth of the Member's annual entitlement on 22<sup>nd</sup> of each month.*
- Ch.2 Pan fydd y taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy nag y mae ganddo / ganddi hawl i gyflogau, lwfansau neu ffioedd y bydd yr Awdurdod yn gofyn bod y rhan honno sy'n ordaliad yn cael ei ad-dalu./ *Where payment has resulted in a Member receiving more than his/her entitlement to salaries, allowances or fees the Authority will require that such part that is overpayment be repaid.*
- Ch.3 Mae'r holl daliadau yn ddarostyngedig i'r dreth briodol a didyniadau Yswiriant Gwladol./ *All payments are subject to the appropriate tax and National Insurance deductions.*

**D. Absenoldeb Teuluol/ Family Absence**

- D1. Mae hawl gan Aelodau o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teuluol, lle os ydynt yn bodloni'r amodau a ragnodir bod ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod./ *Members are entitled under the provisions of the Family Absence for Members of Local Authorities (Wales) Regulations 2013 to a period of family absence, during which if they satisfy the prescribed conditions they are entitled to be absent from authority meetings.*
- D.2 Wrth gymryd absenoldeb teuluol mae gan Aelodau'r hawl i gadw cyflog sylfaenol beth bynnag yw eu cofnod presenoldeb yn union cyn cychwyn yr absenoldeb teuluol./ *When taking family absence Members are entitled to retain a basic salary irrespective of their attendance record immediately preceding the commencement of the family absence.*
- D.3 Petai deiliad uwch gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol byddant yn gallu parhau i dderbyn eu cyflog uwch drwy gydol yr absenoldeb./ *Should a senior salary holder be eligible for family absence they will be able to continue to receive their senior salary for the duration of the absence.*
- D.4 Os bydd yr awdurdod yn cytuno ei bod yn angenrheidiol i wneud apwyntiad eilydd i ddirprwyo dros absenoldeb teuluol y deiliad uwch gyflog bydd yr Aelod sy'n dirprwyo yn gymwys i dderbyn uwch gyflog hefyd os yw'r awdurdod yn penderfynu felly. / *If the authority agrees that it is necessary to make a substitute appointment to cover the family absence of a senior salary holder the Member substituting will be eligible if the authority so decides to be paid a senior salary.*
- D.5 Os bydd y taliad i'r apwyntiad eilydd yn achosi'r awdurdod i dorri'r 'cap' ar ei nifer uchaf o uwch gyflogau, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu am gyfnod apwyntiad yr eilydd./ *If the paid substitution results in the authority exceeding its maximum number of*

*senior salaries, an addition to the maximum will be allowed for the duration of the substitution.*

**Dd. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig/ Co-optees' payments**

- Dd.1 Rhaid i ffi ddyddiol Aelodau Cyfetholedig (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod) gael ei dalu i aelodau cyfetholedig, ar yr amod eu bod yn Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio./ *A Co-optees' daily fee (with a provision for half day payments) shall be paid to Co-optees, provided they are statutory Co-optees with voting rights.*
- Dd.2 Bydd taliadau yn cymryd i ystyriaeth amser yn teithio yn ôl ac ymlaen i leoliad y cyfarfod, amser rhesymol ar gyfer paratoi a hyd y cyfarfod (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol)./ *Payments will take into consideration travelling time to and from the place of the meeting, reasonable time for pre meeting preparation and length of meeting (up to the maximum of the daily rate).*
- Dd.3 Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei ddynodi fel y "swyddog priodol" a bydd yn pennu amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod, bydd y ffi yn cael ei dalu ar sail y penderfyniad hwn. /*The Head of Democratic Services is designated as the "appropriate officer" and will determine preparation time, travelling time and length of meeting, the fee will be paid on the basis of this determination.*
- Dd.4 Gall y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd benderfynu o flaen llaw a yw cyfarfod yn cael ei raglennu ar gyfer diwrnod llawn a bydd y ffi yn cael ei dalu ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn dod i ben cyn mae pedair awr wedi mynd heibio./ *The Head of Democratic Services can determine in advance whether a meeting is programmed for a full day and the fee will be paid on the basis of this determination even if the meeting finishes before four hours has elapsed.*
- Dd.5 Mae cyfarfod hanner diwrnod yn cael ei ddiffinio fel hyd at 4 awr./ *A half day meeting is defined as up to 4 hours*
- Dd.6 Mae cyfarfod diwrnod llawn yn cael ei ddiffinio fel dros 4 awr/ *A full day meeting is defined as over 4 hours.*
- Dd.7 Mae'r ffi diwrnod a hanner diwrnod ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Archwilio, fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn £256 am ddiwrnod llawn a £128 am hanner diwrnod./ *The daily and half day fee for the Chairpersons of the Standards Committee and Audit Committee, as determined by the Independent Remuneration Panel, are £256 for a full day and £128 for half day.*
- Dd.8 Mae'r ffi diwrnod a hanner diwrnod ar gyfer Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio, fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn £198 am ddiwrnod llawn a £99 am hanner diwrnod. / *The daily and half day fee for other statutory Co-optees with voting rights, as determined by the Independent Remuneration Panel, is £198 for a full day and £99 for half day.*